**<u>Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, 12/1/22</u>**

**Yn bresennol**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Vikki Howells (Cadeirydd) | Aelod o'r Senedd |
| Luke Fletcher (Is-gadeirydd) | Aelod o'r Senedd |
| Mabon ap Gwynfor | Aelod o'r Senedd |
| Mike Hedges | Aelod o'r Senedd |
| Casey Edwards (siaradwr) | Cymunedau'n Creu Cartrefi, Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Harry Thompson (siaradwr) | Y Sefydliad Materion Cymreig |
| Chris Blake (siaradwr) | Skyline Rhondda |
| Daniel Roberts (Ysgrifennydd) | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Belisario Iurcovich | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Dan Rose | Staff Cymorth y Senedd |
| Dave Palmer | Cymunedau'n Creu Cartrefi, Canolfan Cydweithredol Cymru |
| David Myles | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Derek Walker | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Elin Hywel | Staff Cymorth y Senedd |
| Hugh Russell | Cymunedau'n Creu Cartrefi, Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Huw Lewis | Plaid Cydweithredol Cymru |
| Lucie Taylor | Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol |
| Mike Erskine | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Nicola Perkins | Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu |
| Robin Lewis | Staff Cymorth y Senedd |
| Sophie Buckley | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |

**Cofnodion y Cyfarfod**

Cafodd y cyfarfod ei agor gan **Vikki Howells AS**, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, drwy amlinellu'r diben o archwilio tai dan arweiniad y gymuned yng Nghymru, ac yn arbennig yr hyn y mae'n rhaid ei wneud i ehangu ei rôl ymhellach yng Nghymru. Dywedodd Vikki mai diben tai cydweithredol a thai dan arweiniad y gymuned yw bod pobl leol yn cymryd rôl flaenllaw a pharhaol wrth greu cartrefi diogel, fforddiadwy a chryfhau cymunedau. Nodwyd mai mynediad i dir addas oedd i'w drafod yn y cyfarfod hwn fel un o'r rhwystrau allweddol rhag datblygu tai dan arweiniad y gymuned.

Yna cyflwynodd Vikki siaradwr cyntaf y sesiwn, **Casey Edwards o Cymunedau'n Creu Cartrefi, a ddarperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru**. Rhaglen Cymunedau'n Creu Cartrefi yw unig ganolfan tai dan arweiniad y gymuned yng Nghymru. Cenhadaeth Cymunedau'n Creu Cartrefi yw helpu pobl a chymunedau i greu'r cartrefi y maent am eu cael drwy rannu gwybodaeth, meithrin sgiliau a dod â phobl at ei gilydd. Rhoddodd Casey drosolwg o'r prosiect a'r gwaith y mae wedi'i wneud yng Nghymru, yn ogystal ag amlinellu egwyddorion a manteision allweddol tai dan arweiniad y gymuned, gan gynnwys llesiant, integreiddio cymunedol, gwerthoedd democrataidd a fforddiadwyedd. Rhoddodd Casey enghreifftiau hefyd o astudiaethau achos cadarnhaol ledled Cymru a'r DU, gan gynnwys Bridport, Tir Cyffredin, Granby4Streets a LILAC. Ar hyn o bryd mae

Cymunedau'n Creu Cartrefi yn gweithio gyda 60 o brosiectau tai dan arweiniad y gymuned yng Nghymru ar wahanol gamau o'u datblygiad. Amlinellodd Casey hefyd yr ymrwymiadau polisi a wnaed yn y maes hwn, gan gynnwys Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2021. Yna trafododd Casey y camau nesaf ar gyfer polisi tai dan arweiniad y gymuned, gan awgrymu y gallai'r Alban gynnig glasbrint i Gymru drwy ei Deddf Grymuso Cymunedau (Yr Alban) 2015 a pholisi diwygio tir cyson ers datganoli.

Y siaradwr nesaf oedd **Harry Thompson o'r Sefydliad Materion Cymreig.** Ar hyn o bryd mae Harry yn rheoli prosiect ar ddyfodol tir a pherchnogaeth yng Nghymru, a chyn bo hir bydd yn cyhoeddi adroddiad yn amlinellu'r cyd-destun Cymreig a'r camau nesaf i'w datblygu. Mae wedi bod yn cyfarfod grwpiau cymunedol, tirfeddianwyr a llunwyr polisi ac yn trafod y mater hwn gyda hwy, i weld lle mae cytundeb a blaenoriaethau a rennir. Nododd Harry ei fod, drwy gydol y prosiect hwn, wedi'i argyhoeddi o bwysigrwydd y maes pwnc hwn, ac mae'n credu ei bod yn hanfodol bod llunwyr polisi a rhanddeiliaid ehangach yn ymwybodol o bwysigrwydd y polisi hwn a'r effaith sylweddol y gallai ei chael ar gymunedau Cymru. Nododd mai 70% o bris tŷ yw'r tir y mae'n sefyll arno, a bod hyn yn golygu ei fod yn ddadl hollbwysig yng nghyd-destun yr argyfwng tai yng Nghymru. Yna rhoddodd Harry gyd-destun ehangach y newidiadau deddfwriaethol sydd wedi digwydd yn Lloegr a'r Alban dros y degawdau diwethaf, a heriodd Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu'r maes polisi hwn i raddau helaethach er mwyn sicrhau nad yw Cymru'n cael ei gadael ar ôl.

Y siaradwr olaf ar y panel oedd **Chris Blake o Rhondda Skyline.** Mae Prosiect Rhondda Skyline yn gydweithrediad rhwng y gymuned a nifer o sefydliadau gan gynnwys Croeso i'n Coedwigoedd, RHA Cymru, CIC y Cymoedd Gwyrdd, Gwybodaeth Am Goed Cymru, y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw rhoi rheolaeth i drigolion lleol dros y mynyddoedd a'r coetiroedd o amgylch Rhondda Fawr Uchaf drwy sefydlu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol. Bydd yr Ymddiriedolaeth hon yn sicrhau'r hawliau i'r tir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, y corff sy'n ei reoli ar hyn o bryd, ac yn caniatáu i bobl leol benderfynu sut y caiff ei ddefnyddio a pha brosiectau y gellir eu hariannu er budd y gymuned y mae'n ei hamgylchynu. Trafododd Chris y gwaith y mae'r prosiect wedi bod yn ei wneud, a'i bod yn bwysig bod cymunedau'n dod at ei gilydd i fynd i'r afael â'r heriau y mae Cymru a'r byd ehangach yn eu hwynebu. Nododd y dyfyniad "... os yw'r ddynoliaeth i gael unrhyw obaith o ddod o hyd i ffordd gynaliadwy o fyw, rhaid inni ailadeiladu'r gymuned. Mae hynny'n golygu rhoi cyfrifoldeb am eu lle, eu cynllunio a'u menter eu hunain yn ôl i'r bobl sy'n byw yn yr ardal". Pwysleisiodd fod diwygio tir a chynlluniau tai dan arweiniad y gymuned yn elfen hanfodol o hyn a bod gwaith polisi yn y maes hwn yn hanfodol.

Yn dilyn cyflwyniadau'r siaradwyr, diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu cyfraniadau a gwahoddodd yr holl Aelodau i'r llwyfan rhithwir i gymryd rhan mewn trafodaeth. Trafododd **Mike Hedges AS** bwysigrwydd blaenoriaethu gwerth cymdeithasol i'r un graddau â gwerth economaidd pan oedd cyrff cyhoeddus yn gwerthu tir neu asedau eraill, a thrafodwyd y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y maes hwn, yn ogystal â'r camau nesaf. Un o'r cwestiynau allweddol a godwyd gan **Derek Walker** a **Huw Lewis** oedd y lle ar gyfer cynigion deddfwriaethol a chefnogaeth wleidyddol i'r syniadau hyn, a dywedodd Aelodau o'r ddwy blaid wleidyddol a gynrychioliwyd y byddent yn cefnogi'r meysydd hyn ac yn cario'r faner dros y mater hwn. Dywedodd **Lucie Taylor** y bu galw mawr, yn ei gwaith hi, gan grwpiau cymunedol, am dir a gofod, ond bod Awdurdodau Lleol yn pryderu mwy am osgoi risg o ran colli perchnogaeth ar dir neu asedau o werth economaidd uchel yn ystod amodau economaidd anodd. Dywedodd **Luke Fletcher** ei fod yn credu bod angen newid diwylliant a bod angen i'r llywodraeth gamu i mewn i gychwyn hyn. Eglurwyd pwysigrwydd deddfwriaeth i sicrhau bod y camau hyn yn cael eu cymryd cyn gynted â phosibl ac i roi hawliau gwirioneddol i gymunedau yn y maes hwn, a dywedodd **Vikki Howells** y byddai'n ysgrifennu at Lywodraeth Cymru

fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol hwn. Yn olaf, diolchodd **Vikki** i'r panelwyr, yr Aelodau o’r Senedd a phawb a oedd yn bresennol am y drafodaeth ffrwythlon a daeth â'r cyfarfod i ben.